



Bwrdd Cymwysterau Cymru

QWB44 Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 13 Mai 2021

Yn bresennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DJ) (Cadeirydd), Anne-Marie Duffy (AMD), Caroline Burt (CB), Claire Morgan (CM), David W Jones (DWJ), Ellen Donovan (ED), Jayne Woods (JW), Isabel Nisbet (IN), Robert Lloyd Griffiths (RLG), Philip Blaker (PB), Hannah Burch (HB), Sharron Lusher (SL)

Graham Hudson (GH), Michael Griffiths (MG), (Aelodau Newydd y Bwrdd - Arsylwyr)

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Leonie White (LW) (ar gyfer Eitem 9 o'r Agenda), Osian Llywelyn (OLI) (y person sy'n cymryd y cofnodion), Laura Hughes (LH) Cyfreithiwr Browne Jacobson sy'n cynrychioli Cymwysterau Cymru (Eitem 7)

Llywodraeth Cymru: Jo Valentine (JV), Mike Keoghane (MK)

Ymddiheuriadau: Douglas Blackstock (DB) (Aelod Newydd o'r Bwrdd – Arsylwr)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod.
- 1.2. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ymddiheuriadau wedi dod i law gan DB a oedd i fod i arsylwi ar y cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
- 1.3. Cadarnhaodd y Cadeirydd a CB y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor Taliadau yn eitem gaeedig ar ddiwedd y cyfarfod.

2. Cofnodion Bwrdd a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021 a Diweddariad ar gamau gweithredu

- 2.1. Holodd y Bwrdd a oedd diweddariad i'w ddarparu ar y grŵp cynghori Llywodraeth Cymru sydd wedi cael y dasg o ymdrin â materion sy'n ymwneud â haf 2021 y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.4 o'r cofnodion.
- 2.2. Nododd IN ei bod yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn bersonol, nid fel Aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru. Cadarnhaodd fod y grŵp wedi cyfarfod 3 gwaith a'i bod hefyd wedi cyfathrebu ag aelodau annibynnol eraill o'r grŵp. Cadarnhaodd IN fod PB yn mynychu fel arsylwr a bod ei fewnbnw i'r cyfarfodydd hynny wedi bod yn werthfawr. Awgrymwyd felly mai'r ffordd briodol o adrodd ar y gweithgaredd hwn i'r Bwrdd yn y dyfodol fyddai drwy adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

- 2.3. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion yn amodol ar wneud mân ddiwygiadau.
- 2.4. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gamau heb eu cymryd o'r cofnodion.
- 2.5. Holodd y Bwrdd a oedd UG wedi cyfweld ag aelodau'r Bwrdd sy'n ymadael. Cadarnhaodd UG fod cyfweiliadau wedi'u cynnal gydag Arun Midha ac Angela Maguire-Lewis, a bod dyddiadau wedi'u cytuno ar gyfer cyfweiliadau ag IN, CM a CB a fydd yn gadael ym mis Mehefin.

3. Adroddiad y Cadeirydd

- 3.1. Cyfeiriodd y Cadeirydd at etholiadau Senedd Cymru a gynhaliwyd ar 6 Mai a nododd enwbiad Mark Drakeford fel y Prif Weinidog. Ychwanegodd y Cadeirydd fod disgwyl i fanylion am y Cabinet gael eu cyhoeddi'n fuan, gan gynnwys penodi Gweinidog Addysg newydd.
- 3.2. Esboniodd y Cadeirydd y byddai gweithio gyda gwleidydd sydd newydd ei benodi yn gyfle diddorol, ac mai ein bwriad oedd cysylltu â'r Gweinidog newydd i'w llongyfarch ar eu penodiad ac i drefnu cyfarfod.
- 3.3. Nododd PB ei fod wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddar a'u bod wedi cadarnhau y byddent yn briffio'r Gweinidog newydd ar unwaith ar faterion yn ymwneud â chymwysterau'r haf hwn.
- 3.4. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd ei fod wedi cael ei gyfweld gan y BBC ac S4C, a bod hyn yn debygol o gael ei ddarlledu ddydd Gwener, 14 Mai. Yn y cyfweiliad hwn roedd wedi trafod tegwch i ddysgwyr, materion llwyth gwaith a'r potensial ar gyfer anghysondebau yn nulliau canolfannau o bennu graddau.
- 3.5. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei ohebiaeth ddiweddar ynghylch trefniadau'r Pwyllgor yn y dyfodol ac esboniodd y byddai cyfarfod ychwanegol yn cael ei gynnal ddiwedd mis Mehefin i drafod hyn yn fanylach.
- 3.6. Gofynnodd y Bwrdd am drafodaeth bellach ar drefniadau'r Pwyllgor Rheoleiddio yn y dyfodol, gan nodi pwysigrwydd gwaith rheoleiddio craidd yn cael goruchwyliaeth gan bwyllgorau a manteision unigolion yn edrych ar faterion yn fanwl.
- 3.7. Esboniodd y Cadeirydd fod nifer sylweddol o benderfyniadau rheoleiddio yn ymwneud â dyfarnu cymwysterau yn 2020, 2021 a 2022 wedi'u gwneud gan y Bwrdd ac y byddem yn gweld aelodau profiadol o'r Pwyllgor hwn yn ymddeol o Fwrdd Cymwysterau Cymru cyn bo hir. Gyda hynny mewn golwg, pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd ein trafodaethau ym mis Mehefin lle byddai'r mater hwn yn cael ei drafod.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

I. OLI i drefnu cyfarfod ddiwedd mis Mehefin i drafod trefniadau'r Pwyllgor yn y dyfodol.

4. Adroddiad Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Atgoffodd PB y Bwrdd mai nod Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sydd o ddiddordeb i'r Bwrdd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn manau eraill yn yr agenda. Cyfeiriodd PB yn benodol at gymeradwyo cymwysterau galwedigaethol a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu a'r gwaith o ddisodli Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru lefel 3 ar hyn o bryd.
- 4.2. Rhoddodd PB y wybodaeth ddiweddaraf am ddyfarnu grantiau i gefnogi'r ddarpariaeth o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Esboniodd ein bod wrthi'n adolygu ceisiadau yn erbyn ein meini prawf sgorio ar hyn o bryd. Ychwanegodd PB ein bod eisoes wedi derbyn cais am grant yn gysylltiedig â'n hadolygiad sector mewn Chwaraeon a Hamdden, a oedd wedi canfod bod angen cynyddu argaeledd y cymwysterau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.3. Nododd PB ein bod wedi rhagweld risg na fyddai digon o geisiadau'n dod drwodd gan gyrff dyfarnu, oherwydd eu bod yn delio â materion eraill sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ac roeddem wedi derbyn ceisiadau a oedd yn rhagori ar y swm a ddyrannwyd. Ychwanegodd PB y gallem fod eisiau gordanysgrifio'r swm a ddyrennir i grantiau er mwyn cefnogi'r maes gwaith pwysig hwn.
- 4.4. Cadarnhaodd PB y byddai cyfarfod nesaf y Gweithgor Dychwelyd i'r Swyddfa ar 21 Mai ac mai'r disgwyliad, yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol, yw y byddem yn cael rhyw fath o ddychwelyd i'r swyddfa ddiwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf.
- 4.5. Nododd PB fod nifer o staff wedi ymuno â'r sefydliad yn ystod y pandemig ac nad oeddent erioed wedi bod yn y swyddfa. Felly, ein bwriad yw trefnu sesiynau cynefino swyddfa gyda'r staff hynny. O ran niferoedd, nododd PB y byddem yn cymryd ymagwedd ofalus a bod mathau 'hybrid' o weithio yn cael eu rhagweld ar gyfer y rhan fwyaf o staff yn y dyfodol.
- 4.6. Gwnaeth y Bwrdd y sylwadau canlynol mewn perthynas â dychwelyd i'r swyddfa:
 - cwestiynu beth oedd meddylfryd diweddaraf y Bwrdd Gweithredol o ran patrymau gwaith, a sut yr oeddent yn debygol o edrych;
 - cwestiynu a fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau i bolisiau adnoddau dynol;
 - gofyn a oedd bwriad i gyflwyno pwyntiau gwefru trydan y tu allan i'r adeilad, gan ystyried y newid mewn ymddygiad a fydd yn digwydd wrth symud ymlaen, a
 - nodi'r angen i ystwythder mewn cynlluniau er mwyn ymateb yn effeithiol i drydedd don bosibl.

- 4.7. Ailadroddodd PB yr egwyddor sylfaenol na all dychwelyd i weithio mewn swydd fod yn fater o ddewis personol yn unig, ac y bydd angen i drefniadau ddiwallu anghenion busnes. Cyfeiriodd PB hefyd at yr agenda lles, a'r ffaith y byddai dychwelyd i'r swyddfa yn creu gwahanol faterion lles. Gyda hynny mewn golwg, mae cyfrifoldeb ar y sefydliad i weithio'n gallach yn y dyfodol.
- 4.8. Nododd PB y byddai heriau lle mae gennym gymysgedd o staff yn gweithio yn y swyddfa ac eraill o gartref, yn enwedig y risg y byddai'r rhai gartref yn teimlo eu bod wedi'u hymyleiddio gan y gallai sgysiau mewn cyfarfodydd gael eu dominyddu gan y rhai yn y swyddfa. Fodd bynnag, nododd PB fod profiad y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld pobl yn dod yn fwy ymwybodol o sut deimlad yw gweithio gartref.
- 4.9. Cadarnhaodd AS fod y contract cyngor cyfreithiol Adnoddau Dynol a Chaffael allan i dendr, ac fel rhan o'r gwerthusiad gofynnwyd i gynigwyr nodi'r risgiau o ddychwelyd i'r swyddfa a sut y gallent ein helpu. Nododd AS fod yr adborth a gafwyd yn ddefnyddiol ac y byddai angen adolygu rhai o'r polisïau sefydliadol.
- 4.10. Cadarnhaodd PB y byddai'n mynychu digwyddiad Price Waterhouse Coopers (PWC) ar weithio o bell yr wythnos nesaf, a fyddai'n rhoi cyfle i fyfyrion ar eu profiadau ac unrhyw wersi a ddysgwyd a fydd yn llywio ein syniadau.

5. Crynodeb o Allbynnau Diwrnod Datblygu'r Bwrdd a'r Camau Nesaf

- 5.1. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r diwrnod datblygu, ac i OLI am gynhyrchu papur cryno.
- 5.2. Nododd PB bryder yr aelodau ynghylch cymeradwyo'r cynllun gweithredol ar gyfer 2021/22 tra bod trafodaethau am strategaeth yn y dyfodol yn parhau ac felly roedd yn awyddus i sicrhau bod y Bwrdd yn gyfforddus gyda'i gynnwys yn dilyn y diwrnod datblygu, ac a oedd angen unrhyw newidiadau pellach o'u safbwynt hwy.
- 5.3. Cynigiodd PB mai'r camau nesaf ar gyfer datblygu strategaeth fyddai sesiwn yn edrych ar nodau tymor hir ac wedyn datblygu gweledigaeth ddrafft ar gyfer system gymwysterau Cymru yn 2032 (deng mlynedd o gyhoeddi'r strategaeth y flwyddyn nesaf).
- 5.4. Ychwanegodd PB y byddai angen i'r Bwrdd gytuno ar strwythur ar gyfer y strategaeth. Cynigiwyd y gellid trafod hyn yn yr hydref.
- 5.5. Darparodd y Bwrdd y sylwadau canlynol:
 - nodi bod y cynllun gweithredol yn ddigon eang i ymgorffori'r meysydd a nodwyd yn ystod y diwrnod datblygu;
 - gwneud sylwadau ar y ffaith bod llawer o'r allbynnau y cytunwyd arnynt wedi'u cysylltu'n benodol â QFF a gofynnodd ai'r bwriad oedd i'r strategaeth hon fod yn ddull tymor hwy neu a allai hyn hefyd effeithio ar raglen waith y QFF;

- nodi pwysigrwydd y gymuned addysg gan wybod bod meddwl dwfn, tymor hwy yn digwydd;
- trafod yr angen i ddod i safbwynt y cytunir arno ar rai o'r materion allweddol a drafodwyd yn Niwrnod Datblygu'r Bwrdd;
- trafod a oedd ein gwaith ymchwil yn rhy ymhlyg ar hyn o bryd yn y cynllun gweithredol, ac a ddylid gwneud rhyngweithio'r cynllun ymchwil â'r cynllun gweithredol yn fwy eglur;
- pwysleisio pwysigrwydd ymchwil wrth wybod beth yw arfer gorau byd-eang a defnyddio hyn i lywio ein sefyllfa;
- ailadrodd yr awydd i weld mwy o ddefnydd o asesiad digidol ac i hyn gael ei wneud ar gyflymder priodol, gan gydnabod y gallai hyn deimlo'n anghyfforddus i rai rhanddeiliaid;
- nodi'r angen i fwrw ymlaen ag ystyriaethau asesu mewn ymateb i gwricwlwm newydd gyda meddwl agored;
- cyfeirio at ddadleuon ynghylch dyfodol arholiadau yn 16 oed, gan rybuddio y gallai dileu opsiynau effeithio'n negyddol ar y rhai o gefndiroedd difreintiedig, a
- pwysleisio pwysigrwydd cymaroldeb â chenhedloedd eraill ledled y DU, a'r angen i ystyried sut y byddai sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr yn gweld y math o asesiad sy'n cael ei osod, gan dderbyn y bydd cymariaethau'n cael eu gwneud.

5.6. Cadarnhaodd PB y byddai'r strategaeth yn cael effaith ar ein gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol, o ystyried y ffaith bod y cymwysterau newydd yn debygol o gael eu tystysgrifau am y tro cyntaf yn 2027.

5.7. Ychwanegodd PB y byddai'r ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar i sut mae dyfarniadau athrawon yn cyfrannu at ddyfarnu cymwysterau mewn gwledydd eraill o ddi-ddordeb i'r Bwrdd a byddai cyflwyniad yn cael ei drefnu pan gwblhawyd y gwaith.

5.8. Crynhodd y Cadeirydd y pum maes allweddol ac amlwg a ddeilliodd o'r drafodaeth a gynhaliwyd yn ystod y diwrnod datblygu ac fel rhan o'r eitem hon ar yr agenda, a oedd fel a ganlyn:

- cyfathrebu ac ymgysylltu;
- ymchwil;
- digidol ac e-asesu;
- opsiynau asesu, a
- polisi addysgol 16-19.

5.9. Cynigiodd y Cadeirydd y cynhaliwyd trafodaethau byrrach gan y Bwrdd ar y meysydd hynny ochr yn ochr â thrafodaethau ar wahân ar ddatblygu'r ddogfen strategol gyda'r nod o lunio strategaeth yn gynnar yn 2022.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- II. **Canfyddiadau gwaith ymchwil ar asesu athrawon i'w rhannu ag aelodau'r Bwrdd pan fyddant wedi'u cwblhau.**
- III. **OLI i drefnu sesiynau byr i'r Bwrdd drafod datblygiad ein strategaeth sefydliadol.**

6. Cymwys ar gyfer y Dyfodol

- 6.1. Esboniodd EG fod casgliad ein hymgyngoriad diweddar yn gweld y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol (QFF) yn trosglwyddo o'r ail gam i drydydd cam llawer ehangach o waith, sy'n cynnwys edrych ar ddyluniad a dull asesu'r prif gymwysterau a wnaed ar gyfer Cymru a fydd yn cael eu creu o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd yn ddiweddarach yr haf hwn a llunio'r cynnig cymhwyster ehangach ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed.
- 6.2. Ychwanegodd EG fod y papur yn rhoi cyfle i ail-lunio ar daith y rhaglen waith hon ac i aelodau newydd y Bwrdd ddeall dull cyffredinol ein gwaith yn well cyn gorfod gwneud penderfyniadau allweddol dros y misoedd nesaf.
- 6.3. Darparodd CV a'r EG y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen waith Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:
 - cadarnhau bod rhaglen waith y QFF ar hyn o bryd yn cynnwys tair prif ffrwd waith, sef: cwblhau canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar, cytuno ar y nodweddion dylunio trosfwaol ar gyfer TGAU newydd a llunio'r cynnig cymhwyster cyn-16 ehangach;
 - esbonio ein bod yn datblygu cyfathrebu sy'n disgrifio sut mae pob ffrwd waith yn cyfrannu at ein dull cyffredinol fel rhan o QFF i ddiwygio'r cynnig cymhwyster cyn-16;
 - cadarnhau ein bod wedi cael 1236 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda lefel sylweddol o hynny'n dod gan weithwyr addysg proffesiynol;
 - gan nodi bod lefel uchel o gefnogaeth wedi'i chael i'r rhan fwyaf o gynigion, ond gan bwysleisio y byddai'r holl ymatebion ar gyfer pob cynnig yn cael eu hystyried yn ofalus cyn llunio unrhyw argymhellion;
 - amlinellu'r themâu a gododd dro ar ôl tro o'r ymgynghoriad, sef y ddealltwriaeth amrywiol o'r brand a wnaed ar gyfer Cymru, cwestiynau am werth cael cymwysterau TGAU o wahanol faint, argaeledd athrawon ac adnoddau i ddarparu'r cymwysterau hyn ac awydd am fwy o eglurder ar y cymhwyster ehangach a gynigir;
 - cadarnhau bod pedwar cynnig a gafodd lefel uwch o anghytundeb, a oedd yn cyflwyno cymhwyster dyniaethau integredig, yn cyfuno cymwysterau iaith a llenyddiaeth, cymhwyster Cymraeg ail iaith ar wahân a'r gyfres o gymwysterau gwyddoniaeth.

- gan nodi nad oedd barn dysgwyr yn adlewyrchu barn y gweithwyr addysg proffesiynol, gan gyfeirio'n benodol at ein cynigion ynghylch iaith a llenyddiaeth a gwyddoniaeth, a
 - cadarnhau ein bod i fod i gyflwyno ein hargymhellion i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.
- 6.4. Cydnabu'r Bwrdd fod hwn yn ddarn mawr o waith, gofynnodd am eglurhad ar nifer o bwyntiau a nododd bwysigrwydd gwrandao ac ymateb yn gadarnhaol i'r adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.
- 6.5. Cadarnhaodd EG y bydd paramedrau dylunio ar gyfer TGAU unigol yn cael eu cadarnhau erbyn diwedd 2022, gan alluogi cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd, a bod graddfa'r newid o'r cymwysterau presennol yn debygol o fod yn sylweddol iawn.
- 6.6. Nododd EG fod angen meddwl yn ofalus pa gymwysterau fyddai eu hangen ar gyfer 2025 a'r rhai y gellid eu cyflwyno'n ddiweddarach. Pwysleisiodd EG y dylai'r diwygiadau hyn i gymwysterau adlewyrchu tirwedd newidiol a natur ddatblygol y cwricwlwm newydd.
- 6.7. Cydnabu EG fod trafodaethau ynghylch maint cymwysterau o bosibl wedi achosi dryswch ymhlith ymatebwyr ac mai dim ond fel arwydd i ddarllenwyr o sut y gallai'r cymwysterau edrych y bwriadwyd i hyn fod. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw benderfyniadau ynghylch maint yn cael eu gwneud nes bod penderfyniadau'n ymwneud â chynnwys ac asesu wedi'u gwneud.
- 6.8. Byddem yn estyn allan at randdeiliaid dros fisoedd yr haf i gael sgysiau pellach ac archwilio rhai o'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr i gynigion pwnc-benodol. Ychwanegodd PB, er ein bod yn agored i gael sgysiau pellach ynghylch unrhyw un o'n cynigion, ei bod yn bwysig ailadrodd bod y pecyn cyffredinol hwn o gynigion yn anelu at ddarparu digon o le i ganiatáu ehangder y dysgu a fwriadwyd o fewn y cwricwlwm ac na ddylem golli ffocws ar y persbectif ehangach hwnnw.
- 6.9. Cyfeiriodd PB at y gwaith y mae Estyn yn ei wneud i sefydlu parodrwydd canolfannau. Ychwanegodd PB ei bod yn bwysig cydnabod y bydd uchelgais ar gyfer newidiadau mwy radical ac arloesol i gymwysterau yn gofyn am fwy o amser na diwygiadau mwy cymedrol.
- 6.10. Roedd y Bwrdd yn cytuno y byddai oedi cyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o amser ar gyfer arloesi a nododd yr angen i gyfleu hyn i'r Gweinidog newydd.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- IV. Cytunodd y Bwrdd y byddai oedi cyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o amser ar gyfer arloesi ac yn cefnogi ysgrifennu at y Gweinidog ar y mater hwn.**

7. Trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer haf 2021 – Y wybodaeth ddiweddaraf

7.1. Cyflwynodd JR y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau asesu a dyfarnu ar gyfer haf 2021. Roedd y diweddariad hwn yn cynnwys y canlynol:

- dadansoddiad o'r cofnodion dros dro ar gyfer haf 2021, a ddarparwyd fel 'gwybodaeth reoli',
- trosolwg o broses apelio'r haf hwn, gan gynnwys amlinelliad o'r negeseuon allweddol ynghylch apelïadau;
- nodi'r meysydd sy'n peri pryder o adborth gan randdeiliaid; a
- sefyllfa gyfreithiol, ac egwyddorion cyfiawnder naturiol mewn perthynas â sicrhau bod tystiolaeth asesu ar gael fel rhan o'r broses apelio.

7.2. Trafododd y Bwrdd y canlynol:

- y patrymau mynediad yng Nghymru, gan gynnwys y cynnydd ym mynedïadau Blwyddyn 10 ar gyfer TGAU;
- trafod yr amrywiaeth mewn dulliau o gyflwyno asesiadau rhwng ac o fewn canolfannau, a
- nodi bod y broses apelio yn cyflwyno risgiau, gan gynnwys y risg weithredol o niferoedd uchel o geisiadau.

7.3. Cadarnhaodd JR y gofynnwyd i CBAC edrych ar geisiadau ar lefel canolfan i chwilio am batrymau mynediad arbennig o anarferol. Fodd bynnag, nododd PB a JR fod penderfyniadau mynediad ar gyfer canolfannau ac nad oes gan y sefydliad y pwerau i gyfyngu ar gofnodion.

7.4. Nododd PB fod unrhyw ddull newydd yn cynyddu'r risg o dderbyn nifer uchel o apelïadau. Fodd bynnag, atgoffodd PB y Bwrdd fod y broses apelio wedi'i chynllunio'n ofalus i gydbwysu cael proses effeithiol ac ystyrlon ar gyfer dysgwyr â thegwch hylaw a gweithdrefnol.

7.5. Nododd PB fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i ganolfannau i roi staff gweinyddol ar waith i gefnogi'r broses apelio.

7.6. Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn fodlon â'r sefyllfa bresennol o amgylch proses apelio'r haf hwn ac y byddent am gael gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

V. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r broses apelio.

8. Cynllun Tîm Ymchwil ac Ystadegau - Diweddariad

8.1. Nododd AS ei bod yn bwysig rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn y cyfarfod hwn, yn enwedig gan nad oedd amser wedi caniatáu trafodaeth yn y strategaeth i

ffwrdd ac o ystyried y ffaith y byddai rhai aelodau o'r Bwrdd sydd â diddordeb brwd mewn ymchwil yn ymddeol ym mis Mehefin.

- 8.2. Atgoffodd AS yr aelodau fod y tîm ymchwil yn gymharol fach, a oedd yn cynnwys Tom Anderson fel Pennaeth Ymchwil a 3 aelod arall o staff fel ymchwilwyr. O'r herwydd, roedd y rhaglen waith yn aml yn canolbwyntio ar feysydd lle gallai'r gwaith gael yr effaith fwyaf a chynhyrchu tystiolaeth a all lywio penderfyniadau y mae'r sefydliad yn eu gwneud.
- 8.3. Nododd AS fod y gwaith ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu yn 2020 a 2021 yn effeithio'n ddifrifol ar y tîm. O'r herwydd, mae cynllun ymchwil 2021/22 yn cynnwys llawer o feysydd a oedd eisoes ar y gweill ond y gellir eu cwblhau erbyn hyn.
- 8.4. Tynnodd AS sylw at feysydd allweddol y cynllun ymchwil. Dyma nhw:
- cynnal dadansoddiad opsiynau ar benderfyniadau posibl ar raddio mewn perthynas â QFF, ac effaith y penderfyniadau hynny;
 - cefnogi'r gwaith o sicrhau cynnig ehangach i ddysgwyr 14-16;
 - cwblhau ymchwil ar farn gymharol;
 - adolygu cyfranogiad athrawon mewn asesu mewn awdurdodaethau rhyngwladol;
 - casglu tystiolaeth am effaith 2020 a 2021, a
 - gwaith terfynol ynghylch asesu nad yw'n arholiad (NEA).
- 8.5. Cadarnhaodd AS ein bod wedi gwneud cynigion i unigolion lenwi ein swyddi a hysbysebwyd ar gyfer ymchwilydd parhaol llawn amser ac ymchwilydd cyfnod penodol a fyddai'n rhoi cymorth ychwanegol i'r tîm wrth i bob maes gwaith symud ymlaen.
- 8.6. Darparodd y Bwrdd y sylwadau canlynol:
- ailadrodd bod gwaith ymchwil o bwysigrwydd strategol i'r sefydliad;
 - pwysleisio'r angen i wahaniaethu rhwng ymchwil rhagweithiol ac adweithiol, ac annog ymchwil ragweithiol, ac
 - annog cyfeiriadau penodol at ymchwil yn y cynllun gweithredol wrth symud ymlaen.

9. Cyfathrebu ac Ymgysylltu – Diweddariad

- 9.1. Rhoddodd LW y wybodaeth ddiweddaraf am waith cyfathrebu ac ymgysylltu'r sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:
- yr ymdrech sylweddol i sicrhau bod gwybodaeth am apeliadau a'r canllaw i ddysgwyr mor hygyrch â phosibl;
 - nodi'r angen i sicrhau bod gan y cyfryngau ddealltwriaeth dda o'r dull eleni;
 - cadarnhau bod ystod eang o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid wedi'u cynnal;

- nodi'r berthynas waith agos sydd ar waith i gydlynu negeseuon a sicrhau cysondeb o ran negeseuon lle y bo'n briodol;
- cadarnhau y byddai cynllun cyfathrebu ar y cyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn bo hir;
- nodi'r gwaith a wnaed gyda sefydliadau addysg uwch i esbonio trefniadau yng Nghymru gan gynnwys cyhoeddi canlyniadau dros dro;
- cadarnhau bod cyfrif Instagram wedi'i lansio'n ddiweddar i agor sianel gyfathrebu uniongyrchol gyda dysgwyr a phobl ifanc;
- cadarnhau bod ein Grŵp Cynghori ar Ddysgwyr wedi cyfarfod yn ystod mis Ebrill a mis Mai ac y byddai ail grŵp yn cael ei ffurfio gyda dysgwyr sydd yn bennaf ar raglenni astudio galwedigaethol, a
- nodi bod gwaith yn cael ei wneud i wella ac adnewyddu ein gwefan, gyda'r nod o ddull syml a hygyrch ar gyfer gwahanol fathau o randdeiliaid.

9.2. Mewn ymateb, cynigiodd y Bwrdd y sylwadau canlynol:

- cwestiynu a fyddai rhai o'r rhai a oedd wedi cyfleu adborth cadarnhaol ynghylch trefniadau'r haf hwn yn fodlon gwneud hynny'n gyhoeddus;
- cwestiynu beth ddylai ein dull o weithredu fod wrth ymgysylltu â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n gwneud datganiadau beirniadol am y sefydliad, a
- cwestiynu sut mae'r gwaith naratif sefydliadol yn cael ei ddatblygu, ac a allai hynny arwain at naws wahanol o lais ac arddull i'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

9.3 Cadarnhaodd PB y byddem yn annog rhanddeiliaid gydag adborth cadarnhaol i wneud hynny'n gyhoeddus. Mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol, ychwanegodd PB a LW ei bod yn bwysig, yn eu barn hwy, edrych yn bragmatig ar feirniadaethau o'r fath a mesur pryd y byddai'n briodol ac yn fuddiol ymateb i gyfrifon o'r fath.

9.4 Esboniodd LW mai'r bwriad yw datblygu naratif sefydliadol i ysgogi dealltwriaeth y cyhoedd yn hytrach na thôn llais. Byddai cyfres o gyfweiliadau gydag aelodau gweithredol a Bwrdd hefyd yn cael eu cynnal gyda'r nod o arwain ein cyfathrebiadau a sicrhau eu bod yn gyson ar draws gwahanol lwyfannau.

10. Adroddiad Cynllun Gweithredol a Chyllid

10.1. Esboniodd AS fod y papur yn ymwneud â'r cynllun gweithredol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y byddai'r Bwrdd eisoes yn ymwybodol ohoni.

10.2. Esboniodd KP y gofynnwyd i'r Bwrdd nodi sefyllfa alldro 2020-21 a chyllideb 2021-22.

10.3. Esboniodd KP fod y papur hwn yn benllanw ein hadroddiadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac felly cydnabu na fyddai gan aelodau newydd y Bwrdd ddigon o gefndir o reidrwydd i ddeall y darlun llawn. Ychwanegodd KP y

byddai'r trefniadau sefydlu arfaethedig dros yr wythnosau nesaf, gobeithio, yn rhoi cyfle i ddarparu rhagor o wybodaeth gyllidebol iddynt.

- 10.4. Cadarnhaodd KP mai cyfanswm ein gwariant ar gyfer 2020/21 oedd £8.050m, sy'n unol â'r rhagolwg a darpariaethau llai penodol a adroddwyd i Fwrdd mis Mawrth. Felly, rydym wedi tanwario yn erbyn ein cyllideb ddiwygiedig £927,000. Nododd KP fod y sefyllfa hon wedi'i chyfleu'n rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
- 10.5. Tynnodd KP sylw at elfennau cyllideb 2021/22 yr ystyriwyd eu bod mewn perygl, a dyma'r meysydd y byddwn yn eu hadolygu'n rheolaidd wrth i ni symud i'r flwyddyn ariannol newydd. Cadarnhaodd KP y byddwn yn cynnal adolygiad chwarter 1 o'r gyllideb yn ystod mis Mehefin ac yn trafod hyn yn ARAC a'r Pwyllgor Adnoddau.
- 10.6. Diolchodd y Bwrdd i KP a'i dîm am yr holl waith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y Bwrdd hefyd yn croesawu dull KP o nodi risgiau ac adrodd ar amrywiaeth o swyddi alldro a oedd yn ddefnyddiol iawn iddynt.

11. Rhagolwg

- 11.1. Darparodd OLI drosolwg o'r Rhagolwg, gan gadarnhau'r bwriad i drafod meysydd sylweddol o waith y sefydliad ym mis Gorffennaf. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion o ran ein penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar Gymhwyso ar gyfer y Dyfodol, adroddiad ar weithredu ein strategaeth Dewis i Bawb am y flwyddyn gyntaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfarnu yn 2021.
- 11.2. Ychwanegodd PB y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi o ran y ffordd orau o strwythuro sesiynau byrrach arfaethedig y Bwrdd.
- 11.3. Ychwanegodd EG hefyd y byddai angen tynnu sylw'r Bwrdd at syniadau ar nodweddion dylunio cyffredin ar gyfer cymwysterau TGAU naill ai yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf neu fis Medi.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- VI. Bydd y Rhagolwg yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r meddylfryd presennol ynghylch datblygu strategaeth ac i ychwanegu eitem ar nodweddion dylunio cyffredin ar gyfer cymwysterau TGAU.**

12. AOB

- 12.1. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am gynhyrchu a chyflwyno papurau ar gyfer y cyfarfod prysur hwn.
- 12.2. Nododd y Cadeirydd a'r PB mai hwn oedd cyfarfod llawn olaf y Bwrdd ar gyfer IN, CB a CM a fyddai'n ymddeol ym mis Mehefin ac roedd am ddiolch iddynt am eu mewnbwn a'u hymroddiad i'r sefydliad yn ystod eu cyfnod fel aelodau'r Bwrdd a'u rôl ar wahanol Bwyllgorau.

12.3. Ni nodwyd unrhyw fusnes arall gan y Bwrdd.

12.4. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor Taliadau i'r Bwrdd fel eitem gaeedig ar yr agenda ac mae wedi'i chofnodi ar wahân.

Diwedd